Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Unpublished

FFURFLEN, DOGFENNU

# Menter i gefnogi ymgysylltu strategol â Horizon Ewrop (Cymru Ystwyth)

Ar agor ar gyfer ceisiadau nawr, gyda ffocws ar weithgareddau a gwariant a hawlir cyn diwedd Mawrth 2025.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 9 Mai 2024

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 9 Mai 2024

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/menter-i-gefnogi-ymgysylltu-strategol-horizon-ewrop-cymru-ystwyth-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

**Cefndir**

**Menter**

**Costau cymwys**

**Cyflwyno ceisiadau**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/menter-i-gefnogi-ymgysylltu-strategol-horizon-ewrop-cymru-ystwyth-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cefndir

Mae **Rhaglen Lywodraethu** Llywodraeth Cymru yn tynnu sylw at bwysigrwydd sicrhau bod presenoldeb Cymru ar lwyfan y byd mor gryf ag y bo modd, ac mae'n ymrwymo i 'gysylltiadau agosach â'r UE ym meysydd yr economi ac ymchwil'.

Bydd cydweithredu â gwledydd a rhanbarthau eraill yn helpu i

- Gynyddu proffil Cymru ar lwyfan y byd
- Tyfu economi Cymru
- Sefydlu Cymru fel gwlad sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Mae gweithio ar y cyd yn rhoi cyfleoedd i rannu syniadau, nodi'r arferion gorau, ehangu arloesi a chystadleurwydd a mynd i'r afael â phroblemau sy'n estyn ar draws ffiniau. Hoffem weld Cymru Ystwyth sy'n edrych tuag allan at bartneriaid yn y DU, yn Ewrop ac yn rhyngwladol, nawr ac yn y dyfodol – i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd cyffredin a mynd i'r afael â heriau cyffredin.

Mae **Horizon Ewrop** yn darparu cyfle mawr i ymchwilwyr ac arloeswyr o Gymru gydweithio â'r gorau yn y byd, denu talent fyd-eang a chyflawni gwyddoniaeth ac arloesedd blaengar er budd cymdeithas.

Nawr mae'r DU yn gymwys i gael cyllid yr UE gan Horizon Ewrop, mae angen ailadeiladu ymddiriedaeth fel mater o frys a chwarae rhan weithredol yn rhwydweithiau Horizon Ewrop, ac estyn ymwybyddiaeth o'r rhaglen i bob cymdeithas y mae'n bosibl y gall gyfrannu. Mae amrediad o grantiau teithio a

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/menter-i-gefnogi-ymgysylltu-strategol-horizon-ewrop-cymru-ystwyth-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

chyllid sbarduno i gefnogi hyn, ac mae'r ecosystem gymorth hon yn parhau i esblygu. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi angen i ganolbwyntio ei chymorth ar gysylltiadau strwythuredig a strategol sy'n gallu ehangu manteision cysylltiad y DU i sectorau cyfan a chlystyrau ledled Cymru. Wrth wneud hyn, byddwn yn rhoi blaenoriaeth i lenwi bylchau yn yr ecosystem gymorth.

## Menter

Mae'r fenter hon yn targedu sefydliadau 'ymbarél' neu sefydliadau sy'n gallu cynrychioli cymuned thematig yng Nghymru. Mae cyfleoedd yn Horizon Ewrop yn helaeth ac yn gymhleth, a hefyd yn gystadleuol iawn. Bydd arbenigwyr sydd â gwybodaeth am eu sectorau yn gallu nodi cyfleoedd a rhwystrau penodol ac ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol yn y DU a'r UE, ond yn aml maent yn brin o amser. Yr amcan yw rhoi rhagor o hyblygrwydd i glystyrau Cymru i weithredu ac integreiddio â rhwydweithiau Ewropeaidd.

Yr amcan yw cynyddu ansawdd, nifer a maint y cyfranogwyr o Gymru sy'n cymryd rhan ym mhrosiectau Horizon Ewrop mewn ffordd systematig. Rhaid i brosiectau gael effaith y gellir ei mesur ar geisiadau i raglenni gwaith 2025

Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn dangos hanes o gydweithio rhyngwladol neu amcan strategol i ymgysylltu â Horizon Ewrop dros gyfnod o flynyddoedd. Dylai ymgeiswyr fod yn barod i gynrychioli a lledaenu gwybodaeth i amrywiaeth o sefydliadau mewn meysydd o arbenigedd Cymreig.

Bydd gweithgareddau â chymorth yn datblygu cysylltiadau â phartneriaid

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/menter-i-gefnogi-ymgysylltu-strategol-horizon-ewrop-cymru-ystwyth-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

rhyngwladol blaenllaw ac yn nodi diddordebau/cryfderau ymchwil cydfuddiannol sy'n cyd-fynd â chyfleoedd Horizon Ewrop. Gallai camau gweithredu gynnwys:

- Datblygu ceisiadau ar gyfer Horizon Ewrop yn 2025
- nodi'r ymgeiswyr mwyaf addawol mewn sector penodol yng Nghymru
- Ymchwilio i'r consortia, y partneriaethau a'r cymdeithasau perthnasol yn Ewrop
- Mynychu digwyddiadau a chyfarfodydd ac adeiladu cysylltiadau mewn meysydd arb/node/53254enigedd
- Cychwyn cydweithio
- Lledaenu gwybodaeth i glwstwr ehangach
- Nodi beth sy'n rhwystro'r clwstwr rhag cymryd rhan a mynd i'r afael â'r rhain, ee cyfranogiad yn y sector preifat, ymchwilwyr sy'n dechrau ar eu gyrfa, cydbwysedd rhwng y rhywiau, profiad cydlynu.

Bydd themâu o fewn **Strategaeth Arloesi** Llywodraeth Cymru yn flaenoriaeth, lle maent yn gorgyffwrdd â chyfeiriad strategol Horizon Ewrop.

Bydd cais cryf yn adlewyrchu'r cyd-destun strategol a amlinellir yn y ddogfen hon yn ogystal â:

- Chreu nifer o geisiadau i Horizon Ewrop
- Trechu rhwystrau uniongyrchol i ragor o geisiadau a cheisiadau o ansawdd uwch
- Bod â mynediad at ymgeiswyr credadwy i Horizon Ewrop sydd â'r rhagoriaeth angenrheidiol (neu'r arloesi tarfol) ac sy'n cysylltu ag effeithiau (e.e. diwydiannol, polisi)
- Cynrychioli clwstwr neu gymuned thematig arall yng Nghymru

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/menter-i-gefnogi-ymgysylltu-strategol-horizon-ewrop-cymru-ystwyth-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

- Ysgogi ymgysylltu rhyngwladol mewn themâu â blaenoriaeth
- Datblygu a gweithredu cynllun i ymgysylltu â phartneriaethau/rhwydweithiau arwyddocaol yn Horizon Ewrop

Bydd angen i bob ymgeisydd ddangos bod y cynnig yn hyfyw ac yn rhoi gwerth am arian. Byddwn hefyd yn disgwyl cyfraniad priodol at **allbynnau a chanlyniadau** perthnasol Cymru Ystwyth.

**Mae gan y fenter gyllideb o £50,000. Rydym yn disgwyl ariannu 4 i 6 prosiect, gan gynnig cyfraniad grant fesul prosiect o tua £10,000 ar 100% o'r costau cymwys,** ond caiff Llywodraeth Cymru roi blaenoriaeth i ceisiadau sy'n ysgogi cyllid arall.

Lle nad yw'r arian sydd ar gael yn ddigonol i fynd i'r afael â'r holl gyfleoedd/materion a nodwyd, dylid creu cynllun byr ar gyfer gweithredu yn y dyfodol fel allbwn. Nid oes sicrwydd o gyllid dilynol, ond dylai prosiectau greu syniadau ar gyfer gweithredu rhag ofn y bydd cyfleoedd yn codi.

Os yw eich cynnig yn cynnwys cydweithredu â gwledydd neu ranbarthau eraill a/neu ffocws llai penodol ar Horizon Ewrop, yna dylech ystyried y cymorth arall sydd ar gael o dan Cymru Ystwyth. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn parhau i gefnogi hyfforddiant a datblygu cynigion unigol i Horizon Ewrop pan fydd modd – cysylltwch ag Uned Horizon Ewrop os yw eich cynnig yn y categori hwnnw: **HorizonEurope@llyw.cymru**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/menter-i-gefnogi-ymgysylltu-strategol-horizon-ewrop-cymru-ystwyth-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Costau cymwys

Oni nodir yn benodol yn yr alwad hon, mae **rheolau a gweithdrefnau Cymru Ystwyth** yn berthnasol.

Gall y gwariant gynnwys gweithgareddau partneriaid y tu allan i Gymru, ar yr amod mai'r partner yng Nghymru sy'n ysgwyddo'r costau yr hawlir amdanynt ac y gellir dangos gwerth am arian. Fodd bynnag, rydym yn eich argymell i gysylltu â **Thîm Cymru Ystwyth** Llywodraeth Cymru yn gynnar yn y gwaith o ddatblygu eich cynnig i sicrhau ei fod yn cydymffurfio.

Ni fyddwn yn cefnogi gweithgareddau na gwariant ar ôl 31 Mawrth 2025.

Er mwyn osgoi canlyniadau anfwriadol ac anhyblygrwydd, nid ydym yn gosod rhestr gaeth o gostau cymwys, ond rhaid i'r costau fod yn angenrheidiol er mwyn hyrwyddo, gweithredu a lledaenu'r prosiectau y cytunwyd arnynt yn y broses ymgeisio a'r cynnig grant ysgrifenedig. Rhaid iddynt fod yn rhesymol, wedi cael eu dilysu ac wedi'u hysgwyddo gan yr ymgeisydd. Gweler rheolau a gweithdrefnau Cymru Ystwyth am ragor o fanylion. Rydym hefyd yn eich argymell i ganolbwyntio ar eitemau gwariant mwy ynghyd â thrywydd tystiolaeth cadarn i symleiddio'r broses hawlio.

Nid yw costau a ysgwyddwyd cyn y dyddiad cymeradwyo'n gymwys, oni bai bod Tîm Cymru Ystwyth Llywodraeth Cymru yn cadarnhau fel arall yn ysgrifenedig.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/menter-i-gefnogi-ymgysylltu-strategol-horizon-ewrop-cymru-ystwyth-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cyflwyno ceisiadau

Rydym yn derbyn ceisiadau nawr. Os nad yw eich cynnig yn 'gryf' fel y diffinnir uchod, cysylltwch â Thîm Cymru Ystwyth Llywodraeth Cymru cyn cyflwyno cais. Fel arall cwblhewch y ffurflen gais a'i hanfon at Tîm Cymru Ystwyth Llywodraeth Cymru yn **AgileCymru@llyw.cymru**.

Bydd ceisiadau'n cael eu hasesu ar sail y graddau y maent yn cyd-fynd â nodau'r fenter hon, a Llywodraeth Cymru a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Gall y penderfyniad hwn gynnwys cynnig grant is na'r grant y gofynnwyd amdano. Mae'n bosibl y byddwn yn ceisio cyngor gan gydweithwyr arbenigol neu gydweithwyr polisi perthnasol yng Nghymru neu mewn gwledydd/rhanbarthau perthnasol. Ymdrinnir â cheisiadau cymwys ar sail '**y cyntaf i'r felin'**, ond bydd rhywfaint o gyfleoedd ar gyfer eglurhad pellach, ac mae'n bosibl y bydd ceisiadau nad ystyrir eu bod yn 'gryf', fel y diffinnir yn y ddogfen hon, yn cael eu rhoi ar restr wrth gefn i ganiatáu cyfleoedd ar gyfer ceisiadau eraill. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn defnyddio dull portffolio er mwyn rheoli'r cydbwysedd rhwng risg ac amrediad o ganlyniadau. Bydd hyn yn cynnwys lledaenu gweithgareddau ar draws themâu, ardaloedd a sectorau lle y byddant yn atgyfnerthu canlyniadau cyffredinol y fenter hon. Felly, mae'n bosibl y byddwn yn rhoi ceisiadau ar y 'rhestr wrth gefn', er mwyn rheoli ystyriaethau portffolio neu am resymau cyllidebol.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/menter-i-gefnogi-ymgysylltu-strategol-horizon-ewrop-cymru-ystwyth-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/menter-i-gefnogi-ymgysylltu-strategol-horizon-ewrop-cymru-ystwyth-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.